# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU – IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 18 Medi 2023** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Cynghorwyr**: | W.F.Griffiths, D.Hopkins, A.Davies a/ac J.Harvey |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | A.Edwards |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | N.Gandy, W.Bramble, T.Evans, P.Homes, I.Llewelyn, R.Griffiths, H.Lucocq, L.Beynon, C.Morris, S.Morris, S.Aldred-Jones, H.Lavender, G.Jones, L.McAndrew a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion:** | Cynghorwyr D.Simpson a/ac Dr S.Hancock |

---

## 1. CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. CYLCH GORCHWYL

Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl Is-bwyllgor Cynllunio Strategol Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i'r Pwyllgor.

Esboniwyd bod y Cylch Gorchwyl wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Corfforaethol, ynghyd â Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgorau arall, ym mis Hydref 2022.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y ddogfen yn nodi nod trosgynnol yr Is-bwyllgor; ynghyd â swyddogaethau a chyfansoddiad y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:** Bydd Aelodau'n nodi cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

4. **CYFLWYNIAD DIWEDDARU CYNLLUNIO STRATEGOL**

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad am y gwaith parhaus sy 'n ymwneud â'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS).

Rhoddodd swyddogion drosolwg byr o ran llywodraethu'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol; a chadarnhaodd mai'r Prif Weithredwr ar gyfer y CDS oedd Cyngor Sir Penfro, ac mai'r arweinydd gwleidyddol oedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi cytuno i nifer o gamau blaenoriaeth yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2023-28, a oedd yn ymwneud â'r CDS. Eglurwyd mai'r cam cyntaf oedd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y Llawlyfr CDS drafft, ac ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth Cymru ynghylch adnoddau; Cadarnhaodd swyddogion fod y ddau gam gweithredu hwn wedi cael eu cwblhau.

Yr ail flaenoriaeth a nodwyd oedd paratoi cytundeb cyflawni a oedd yn nodi'r amserlenni ar gyfer paratoi'r CDS; y cam olaf yw'r gwaith sy'n ymwneud â datblygu'r CDS.

Rhoddodd swyddogion syniad i'r Aelodau o ba gamau sydd wedi'u cwblhau hyd yn hyn:

- Ym mis Rhagfyr 2022, cyflwynwyd sylwadau anffurfiol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Llawlyfr CDS;
- Nid oedd ymgynghoriad ffurfiol Llywodraeth Cymru ar Lawlyfr y CDS wedi'i gynnal eto, gan fod disgwyl iddo gael ei gynnal yn ystod haf 2023;
- Rhoddwyd y diweddaraf i Lywodraeth Cymru gyda phryderon ynghylch y diffyg adnoddau i symud ymlaen â'r CDS;
- Cynhaliwyd Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar y Cyd, Astudiaeth Dichonoldeb Rhanbarthol, Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd De-orllewin Cymru ac Astudiaeth Mireinio Ardaloedd Twf Cenedlaethol.
- Mae gwaith yn cael ei wneud ar Gynllun Masnachu Credyd Maethol yn rhanbarthol, ynghyd ag Asesiad Twf

Economaidd a Thai ar y Cyd ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot;
- Ail-sefydlwyd Grŵp Cynllunio Mwynau a Gwastraff Canolbarth a De Cymru, sydd bellach yn cyfarfod bob chwarter

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi penderfynu ar gyllideb yr Is-bwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, sef £20,000 fesul Is-bwyllgor; adlewyrchwyd hyn yn yr opsiwn i wneud cyn lleied â phosibl, ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith.

Roedd y cyflwyniad yn manylu ar y blaenoriaethau presennol ar gyfer Swyddogion ar draws y rhanbarth mewn perthynas â datblygiad y CDS; y prif flaenoriaeth yw cysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhyddhau ymgynghoriad Llawlyfr CDS er mwyn dechrau datblygu'r cytundeb darparu. Blaenoriaeth arall a nodwyd oedd cydweithio i ymgymryd ag astudiaethau rhanbarthol pellach; bydd hyn yn ffurfio'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDS yn y dyfodol.

Codwyd yr heriau sy'n ymwneud ag adnoddau, gan sôn yn benodol am y gyllideb a'r pwysau staffio. Nodwyd hefyd fod y Cynghorau cyfansoddol yn profi problemau o ran recriwtio staff cynllunio profiadol, sy'n effeithio ar y gwaith rhanbarthol sy'n ymwneud â'r CDS.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y Parciau Cenedlaethol, a'u gwaith mewn cysylltiad â datblygu'r CDS. Eglurwyd bod gan Barciau Cenedlaethol nifer o rwymedigaethau o ran asesiadau effaith, ynghyd ag Egwyddor Sandford a oedd yn ceisio sicrhau bod y Parciau Cenedlaethol yn rhoi natur yn gyntaf; Byddai'n bwysig tynnu sylw at hyn wrth ddatblygu'r ffrwd waith hon yn y dyfodol.

Rhoddodd swyddogion sicrwydd i gynrychiolwyr y Parc Cenedlaethol, a chyfeiriwyd at y dyletswyddau o ran Egwyddor Sanford; yn ogystal ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a natur.

Ail-bwysleisiodd yr Aelodau y materion sy'n ymwneud â'r adnoddau, a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y trafodaethau sydd wedi bod yn digwydd gyda Llywodraeth Cymru.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod pob Arweinydd ar draws y rhanbarth yn wleidyddol yn cydnabod pwysigrwydd y ffrwd waith hon,

a'u bod yn lobïo Llywodraeth Cymru a'r cyrff perthnasol er mwyn helpu i ddatblygu'r blaenoriaethau.

Nodwyd bod Swyddogion ar draws y rhanbarth, gan gynnwys Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru; cafodd y mater hwn ei gynnwys fel eitem sefydlog ar eu hagenda yn eu cyfarfodydd chwarterol fel Cymdeithas, yn ogystal ag yn eu cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Swyddogion yn onest yn y trafodaethau hynny o ran nodi'r hyn a ystyriwyd yn gyfyngiadau o ran absenoldeb cyllid ac adnoddau er mwyn gallu symud ymlaen â'r gwaith.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod rhai o'r camau gweithredu wedi cael eu cwblhau o ran yr astudiaethau trawsffiniol a fanylwyd arnynt yn y cyflwyniad, yn ofynnol ar gyfer cynlluniau datblygu pob cyngor; fodd bynnag, roedd nifer ohonynt hefyd yn bwysig o ran bod yn sail i'r hyn a fydd y cynllun rhanbarthol yn y dyfodol. Nodwyd bod Swyddogion wedi cydnabod pwysigrwydd ymagwedd gweithio ar y cyd, a phwysleisiwyd y byddant yn parhau i weithio'n agos ac ar y cyd ar draws y rhanbarth.

O ran y cytundeb darparu, sef allbwn statudol cychwynnol CDS, dywedodd Swyddogion y byddai angen dealltwriaeth o ble y daw'r adnoddau er mwyn cynhyrchu rhywbeth ystyrlon; roedd hwn yn faes yr oedd Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw ato.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch proses gosod cyllideb Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, ar gyfer blwyddyn ariannol gyfredol 2023/24, ac effaith pwysau'r gyllideb. Cyfeiriwyd at y dadansoddiad a wnaed o'r costau sy'n gysylltiedig â'r CDS, a'r costau posibl y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol; a'r aliniad hwn â'r dyddiadau cau a bennwyd ar gyfer cwblhau'r gwaith. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn dosbarthu'r dogfennau hyn i'r Pwyllgor, yn dilyn y cyfarfod.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH

Darparwyd y Flaenraglen Waith i'r Aelodau ar gyfer yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag